

Adran 1

Dywed Reed a Canning (2012) nid yw arweinyddiaeth gatalytig yn dod o uwchben neu o'r blaen ond mae'n dod o unrhyw fan a bob man. Diffinia catalydd fel asiant sy'n ysgogi neu'n cyflymu newid neu weithrediad sylweddol. Cytuna Toomer (2018) gan ddweud bod arweinydd catalytig yn berson sy'n gallu cyflymu penderfyniadau a gweithredoedd i gyrraedd y nod angenrheidiol. Mae'r term yn deillio o'r term gwyddonol "catalydd" sy'n achosi adweithiau cemegol i ddatblygu'n gynt. Disgrifir arweinyddiaeth gatalytig fel sgil sy'n caniatáu i ymarferwyr sylweddoli pwysigrwydd esblygu a gwella eu harfer yn hytrach na chanolbwyntio ar y nod terfynol. (McDowall Clark a Murray, 2012). Mae Arweinydd Catalytig yn rhywun sy'n tanio gweithredu mewn eraill. Gallai'r ysgogiad hwnnw helpu ddechrau newid mewn proses aneffeithlon, hyrwyddo syniadau Newydd neu'n bwysicaf effeithio newid yn eraill. Mae arweinwyr catalydd yn fentoriaid ynni uchel, cefnogol, sy'n sbarduno gweithrediad yn y bobl o'm gwmpas. (Powers resource center, 2017). Serch hynny mae pobl eraill dim yn gweld pwysigrwydd rhywun heb deitl arweinyddiaeth, gan fod mater o bryder o gwmpas arweinyddiaeth a beth mae arweinyddiaeth yn golygu. Mae pobl yn cysylltu arweinyddiaeth a bod wrth y llyw neu fod yn awdurdod uwch. (R. McDowell Clark, 2012). Cysyllta â Robbins (dim dyddiad) fod y term 'arweinyddiaeth' yn gysylltiedig yn aml a'r syniad y dylai unigolyn fod wedi'i eni a'r rhinweddau cywir i fod yn arweinydd. Yn ogystal mae yna safbwynt bod arweinydd yn rôl benodol y penodir rhywun iddi. Fodd bynnag, mae unrhyw un yn gallu datblygu'r sgiliau sydd eu hangen i fod yn arweinydd. At hyn dylai pob ymarferydd anelu at fod yn arweinwyr a gallu dangos arweinyddiaeth addysgeg beth bynnag eu statws neu gymhwyster. (Nutbrown 2012 cited in Murrey and McDowell Clark, 2013). Gall rhyngweithio rhwng staff a phlant o ansawdd uchel gael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar ddysgu, datblygu a lles plant. (Anne L, Dougless, 2019). Serch hynny er bod y bwriadau yno nad yw'n bosib pob amser, oherwydd diffyg hyfforddiant. Mae Hadfield, Jopling a Neddham (2015) yn dweud bod ymchwil cyfyngedig ar arweinyddiaeth mewn addysg gynnar. Ar ben hynny, mae'r diffyg ymchwil wedi atal hyfforddiant ac wedi arwain at ddisgwyliadau llai o ymarferwyr Blynnyddoedd cynnar. Canfu'r prosiect Darpariaeth Effeithiol o Addysg Cyn-Ysgol (EPPE) fod cymwysterau a phrofiad ymarferwyr yn cyd-fynd â lleoliadau o ansawdd uchel. Felly, mae darparu hyfforddiant i ymarferwyr i fod yn arweinwyr

catalytig yn cael effaith sylweddol ar leoliadau a phrofiadau'r plant. (Hadfield, Jopling a Needham, 2015). Mae Garvey (2017) yn cefnogi bod ymarferwyr y Blynyddoedd Cynnar yn aml yn teimlo bod dim gymorth fel arweinwyr. Her arall yw nad os amser yn ddydd ysgol i anfon staff ar gyrsiau oherwydd diffyg staff. Cefnoga Bush (2011) hyn gan ddweud bod cynnig cyfleoedd i'r holl ymarferwyr i gael eu cynnwys yn y broses penderfynu yn heriol oherwydd diffyg amser. Yr her i hyn yw nad yw lleoliadau efo digon o gyllid i allu anfon staff ar hyfforddiant. Cysyllta a theori Bronfenbrenner, mae'r damcaniaeth hon yn dadlau bod yr amgylchedd rydych chi'n ei dyfu i fyny yn yn effeithio eich bywyd. Felly os mae ymarferydd yn creu amgylchedd cyfoethog mae plant yn gallu datblygu i'w potensial llawn. Yn achos yma wrth i'r Llywodraeth creu polisïau ar lefel macro megis faint o gyllid mae ysgolion/meithrinfeydd yn cael, mae'n effeithio ni ar lefel micro. Nid yw lleoliadau yn derbyn digon o gyllid i allu creu'r lleoliadau mae'r llywodraeth eisiau ni cael ar hyfforddiant hoffant gael.

Dywed Robinson (2017) dylai arweinyddiaeth fod yn ymwneud a galluogi a hwyluso newid o fewn lleoliadau a deall bod cydweithio yn arwain at amgylchedd cyfoethog lle gall plant ffynnu. Arweinydd catalytig yw rhywun sy'n arwain newid. Maen nhw'n gweld beth sy'n digwydd yn y byd ac maen nhw'n neidio i mewn ac yn creu strategaethau i gefnogi'r problemau hyn. (Joseph Lalonde, 2017). Dawn amlwg bod plant yn wynebu problemau cymdeithasegol megis tlodi, camdriniaeth, ADY, problemau iechyd, problemau teuluol ac ati. (Chloe Darlington. 2018). Felly I fod yn arweinydd catalytig yn flynyddoedd cynnar mae'n bwysig mynd y cam tu hwnt. Nad yw'n gweld pethau'r ffordd maent yn mynd, ond yn hytrach y ffordd mae angen Iddyn nhw fynd. (Joseph Lalonde, 2017). Mae gan arweinwyr catalytig angerdd dwys, mae'r arweinwyr hyn yn caru'r sefydliadau maen nhw'n gweithio iddo, cyffroi brwdfrydedd ac yn caru'r hyn maen nhw'n ei wneud. Wrth I bobl wneud rhywbeth maent yn caru maent yn fwy parod i helpu a gwellhau'r problemau sy'n amgylchynu. (The center consulting group, 2017). Mae'n bwysig i arweinwyr catalytig gael ymwybyddiaeth o anghydraddoldebau yn y gymuned a rhoi cyfle i greu perthynas gadarnhaol gyda'r holl blant a'u teuluoedd yn ogystal â'u cyd-ymarferwyr (Mcdowell Clark, 2012; Anna Freud Canolfan Genedlaethol Plant a Theuluoedd, 2022). Cefnoga Nicholson et al. (2018) hyn gan ddweud dylai ymarferwyr deall cymhlethdod cefndiroedd teuluoedd. Bydd hyn yn eu galluogi i

ddarparu'r cymorth cywir a chynnig darpariaeth gynhwysol ac amrywiol. Serch hynny nad yw pob aelod o staff blynyddoedd cynnar wedi cael ei hyfforddi yn Diogelu plant. Er ei fod yn hanfodol bod gan unrhyw un sy'n gweithio neu'n gwirfoddoli gyda phlant neu bobl ifanc yr wybodaeth a sgiliau angenrheidiol i helpu cadw plant yn ddiogel. Mae hyn yn cynnwys y gallu i adnabod arwyddion a dangosyddion camdriniaeth, gwybod sut i ddilyn gweithdrefnau diogelu a sefydliadau diogelu plant. (NSPCC, 2023). Wrth i bob aelod o staff derbyn yr hyfforddiant yma maent yn creu amgylchedd croesawgar i blant lle maent yn teimlo ei fod yn gallu siarad am ei phroblemau a chael yr help angenrheidiol. I ychwanegu mae'n llai tebygol bydd staff yn ddall i arwyddion esgeulustod felly gall plant cael help o'r ymyriadau cynnar, o ganlyniad bydden gael effaith positif ar ddatblygiad y plentyn. Serch hynny nad yw llawer o staff wedi cael ei hyfforddi yn diogelu plant a gall hyn fod oherwydd diffyg cyllid o'r llywodraeth. Ond rheswm arall yw yn rhai lleoliadau dim ond un neu dau aelod o staff sydd yn cael ei hyfforddi ynddo ac fe fyddan yn cael eu cydnabod fel y swyddog diogelu. Y problem i hyn yw bydd rhaid dibynnu ar ddau pobl, i raddau nad yw'n dibynadwy oherwydd ni fydd y dau staff yma mewn pob dydd.

Mae arweinydd catalytig yn ymwybodol o beth sydd angen newid, ac yn gallu cydnabod y problemau cymdeithasegol. Mae'r pwyslais ar atebolrwydd a chyflawni rhagoriaeth wedi tynnu sylw'r angen dybryd am arweinwyr medrus ac effeithiol yn y Blynyddoedd Cynnar. (Siraj-Blatchford a Manni 2006). Mewn lleoliadau Blynyddoedd Cynnar, mae ymarferwyr yn arwain ymarfer bob dydd ond nad ydynt yn cydnabod eu bod o fewn rôl arweinyddiaeth gan nad ydynt yn cael eu hystyried ar lefel rheoli. Felly mae'n bwysig hyrwyddo arweinyddiaeth gatalytig yn flynyddoedd cynnar i ysbrydoli newid o ran rhoi meddylfryd cadarnhaol i ymarferwyr a'r sylweddoliad nad yw arweinyddiaeth yn ddibynnol ar y statws. (Mcdowell Clark, 2012). Fodd bynnag mae yna heriau i hyn yn rhai sefyllfaoedd lle mae rhai staff dim am newid neu ddim yn hoffi newid. O ganlyniad i hyn nad yw staff yn derbyn y gefnogaeth o'r tîm i allu newid yn llwyddiannus. Mae sefydliadau, fel pobl, yn aml yn wrthwynebus iawn i newid, hyd yn oed pan mae'n gwybod ei fod yn angenrheidiol. Serch hynny mae'r allwedd i lwyddiant yn gorwedd yn y gallu i arwain pobl drwy'r newid. I ychwanegu os mae staff yn defnyddio cyfathrebu effeithiol bydd llais pawb yn cael ei chlywed ac o ganlyniad efallai bydd pobl yn fwy

parod i newid os mae'n glir beth sydd angen newid a'r strategaethau a fydd yn defnyddio. (Mary Sharp Emerson, 2012).

Arweinwyr catalytig yw rhywun sy'n cymryd hedyn sy'n bodoli a'i dyfu'n coedwig, wrth ysgogi pobl i roi ac i wasanaethu. I ychwanegu dywed Toomer et al (2018) disgrifia arweinyddiaeth gatalytig fel y gallu i wella gallu eraill o fewn tîm i sicrhau canlyniadau gwell. Yn ogystal, dylai arweinydd catalytig fod yn ddibynadwy ac yn meddu ar onestrwydd gan fod eu rôl yn rhan annatod o gyrraedd canlyniadau dymunol y tîm. Fodd bynnag, dywed Heffernar (2015) yn dweud bod heriau i hyn gan fod unigolion yn aml yn trual perfformiai'n well na'i gilydd. Ar ben hynny, drwy atal cynhyrchiant eraill er mwyn gwella eu hunan, anaml y cyrhaeddir canlyniadau a fwriadwyd.

Fel ymarferydd yn Flynyddoedd cynnar eich rôl yw i greu amgylchedd diogel i blant teimlo ei fod yn perthyn ac yn gallu ffynnu yn, er mwyn cael hyn mae rhaid gweithio fel tîm. Mae barn arweinydd catalytig o natur gyfannol wrth iddyn nhw gydnabod bod pob penderfyniad yn effeithio pawb. (Cooperrider, 2022). Ond un priodoledd pwysig yw hyder, mae corff cynyddol o dystiolaeth yn awgrymu mae canfyddiad rhywun o allu neu hunan hyder yw'r adeilad canolig o ymdrech cyflawniad. Felly wrth fod yn hyderus fel arweinydd mae pobl yn gallu ymddiried ynddo'ch mwy. O ganlyniad maen bosib creu perthnasoedd positif efo pawb, sydd yn ysbrydoli'r staff i weithio'n effeithlon, trwy greu perthnasoedd cadarnhaol rhwng ymarferwyr, cyflawnir cyfalaf cymdeithasol, a chodir cynhyrchiant. (Social Capital Research, 2022). Disgrifir cyfalaf cymdeithasol fel un aml-ddimensiwn gan ei fod yn darparu cynhyrchiant cynyddol ac annog ymarferwyr i deimlo eu bod yn cael ei gwerthfawrogi o fewn y lleoliad. (Social Capital Research, 2022). Bydd arweinwyr catalytig yn sicrhau bod pob person yn teimlo'r un mor werthfawr, er ei rôl. Felly, bydd ymarferwyr yn cael eu grymuso i nodi pa newidiadau sydd angen, gweithredu'r newidiadau hynny a'u cynnal. (Siraj-Blatchford a Hallet, 2014). Cysyllta â Mcdowell Clark (2012) mae'n bwysig i adeiladu cymuned ddysgu a diwylliant tîm gydag addysgeg benodol, pwrpas cyffredin a nodau a rennir. Y cryfder o wneud hwn yw bod pawb eisiau'r un canlyniad. Fel tîm yn flynyddoedd cynnar mae'n hynod o bwysig i feddwl am ymarfer a bod yn barod i newid pethau, oherwydd mae plant yn gallu newid yn gyflym yn ei datblygiad. Felly fel arweinydd catalytig mae'n bwysig i allu addasu a myfyrio. (Mcdowell Clark, 2012).

Adran 2

Yn ôl Comisiynydd Plant Cymru (2023) mae'r comisiynydd yn cefnogi plant a phobl ifanc i gael gwybod am eu hawliau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Prif nod y Comisiynydd yw diogelu a hyrwyddo hawliau a lles plant. Wrth iddyn nhw wrando ar blant a phobl ifanc i ddarganfod beth sy'n bwysig iddyn nhw. Maent yn cynghori plant a phobl ifanc a'r rhai sy'n gofalu amdanynt os ydynt yn credu eu bod wedi cael ei thrin yn annheg. Ei nod arall yw dylanwadu'r llywodraeth a chyrff eraill sy'n dweud byddent yn gwneud gwahaniaeth i fywydau plant, gan sicrhau bod nhw'n cadw eu haddewidion i blant a phobl ifanc Cymru ar faterion pwysig.

Bydd yr adran yma yn canolbwyntio ar dair argymell gwahanol o'r adroddiad dewisir. Nodwyd yn yr Adroddiad 'The Right Way- A children's human rights approach to education in Wales', eu nod yw cael ymarfer cyfartal ac anffafiaeth yn eu lleoliadau. Yn yr adroddiad nodir dylai lleoliadau addysg hyrwyddo newidiadau fel bod plant bob amser yn gallu cymryd rhan yn gyfartal ag eraill. Mae hyn yn golygu bod angen lleoliadau sicrhau bod pob plentyn yn cael profiadau teg ar draws pob maes, y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell dosbarth. Cefnoga hyn Erthygl 2 yn Gomisiynydd Plant Cymru, 'Mae gan bob plentyn yr hawliau yma waeth beth. Dylai blant cael eu trin yn gyfartal.' Bydd plant dim ond yn elwa o addysg os maent yn cael cyfle cyfartal yn addysg. Trwy ymyrryd yn gynnar a chynnig cyfleoedd diddiwedd i blant, mae plant yn gallu elwa o ysgol a datblygu i'w potensial llawn ac o ganlyniad yn gallu llwyddo yn fywyd. (Mary Eming Young, 2002). Cysyllta â theori Piaget wrth iddo ddweud bod plant yn Wyddonwyr bach, wrth iddyn nhw archwilio eu hamgylchedd i gael dealltwriaeth o'r byd. Credai fod plant yn gwneud hyn yn naturiol heb unrhyw ymyrraeth oedolion. (Science Minded, 2021). Felly wrth i leoliadau cael cyfleoedd cyfartal i bob plentyn, mae pawb yn gallu datblygu yw potensial llawn. Ymhellach nodir yr adroddiad gall hyn cynnwys cynllunio ac addasu gweithgareddau fel eu bod yn datblygu galluoedd a chapastiti pob disgybl. Mae pob plentyn yn blentyn unigryw, sy'n dysgu'n gyson ac yn gallu bod yn wydn, yn alluog, yn hyderus ac yn hunan sicr. Mae babanod a phlant ifanc yn aeddfedu ym mhob ardal o ddatblygiad ar eu cyflymder eu hunain ac yn eu ffyrdd unigryw eu hunain. (Early Years Matter, 2023). Wrth addasu gweithgareddau i bob plentyn mae'n bosib cynnwys eu cefndir megis ei diwylliant a unrhyw broblemau

cymdeithasegol maent yn delio gyda. O ganlyniad o wneud hyn bydd plant yn teimlo ei fod yn perthyn yn y lleoliad ac yn llawer mwy parod i eisiau dysgu am ei fod yn amgylchedd positif. (Ferdman, 2017). I ychwanegu wrth wneud gweithgareddau ar ddiwylliannau gwahanol, mae'n addysgu plant bod pawb yn wahanol ac i drin pawb yr yn beth. Os mae plant yn gweld bod staff yn trin pob plentyn yr un peth, bydd hyn yn dylanwadu ar y plant yn y lleoliad. Mae'n bwysig bod plant yn ymchwilio a theimlo'n falch o'u hunaniaeth bersonol unigryw eu hunain. Er mwyn stopio anffafiaeth a chydraddoldeb yn Flynyddoedd Cynnar mae'n bwysig bod ymarferydd wedi cael ei hyfforddi yn 'Equality a Diversity'. Mae hyn yn rhoi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r hyder iddyn nhw hyrwyddo cydraddoldeb a mynd i'r afael a gwahaniaethu yn eu lleoliadau. (Equal I Teach, 2023). Yna gall pob aelod o staff a dysgwyr weithio gyda'i gilydd i sicrhau nad yw plant yn profi anffafiaeth. Fodd bynnag, nad os digon o gyllid i allu anfon pob aelod o staff ar y cyrsiau angenrheidiol i sicrhau bod y nodau yma yn cael ei chyrraedd. Yn ôl y Llywodraeth mae rhan fwyaf o'r gostyngiad mewn gwariant yn dod o doriadau i gyllidebau awdurdodau lleol, sydd wedi cael effaith sylweddol ar ysgolion. Er bod nhw'n cael cyllid mae'r ysgolion yn gwneud y penderfyniadau ariannol, megis sut maen nhw'n gwario'r cyllid a pha mor effeithiol mae'r penderfyniadau hyn. O ganlyniad i leihad yn gyllid nad yw'n bosib i bob aelod o staff mynd ar gyrsiau angenrheidiol, ac ar adegau bydd rhaid iddyn nhw ddod 'nôl ac adrodd nôl i'r gweithwyr eraill ac nad yw hyn yn effeithiol oherwydd gallant nhw ddeall pethau yn anghywir neu yn ffordd wahanol.

Er mwyn iddyn nhw sicrhau bod pawb yn cael ei thrin yn gyfartal a dim delio gyda anffafiaeth, y nod bydd i 'record all incidents and types of bullying'. I roi hwn mewn i ymarfer bydd yr ymarferydd yn adolygu yn rheolaidd a defnyddio'r data hwn i gynllunio camau ataliol i ymateb i'r materion penodol yn y lleoliad. Gellir cytuno i bwynt penodol bod hwn yn gryfder a bydden effeithiol yn y blynyddoedd cynnar. Wrth i ymarferydd siarad â phlentyn ac ysgrifennu cymaint o fanylion am y digwyddiad ag sy'n bosib, bydden helpu adnabod os oes unrhyw batrymau i'r bwllo. Hefyd bydd gan yr ymarferydd cofnod o ddigwyddiadau presennol, a gellir defnyddio yn y dyfodol. (Contact, 2023). Gan wneud hyn yn y Blynyddoedd cynnar bydd ymarferwyr yn cefnogi hawliau'r plant, yn ôl Comisiynydd Plant Cymru (2023) erthygl 19 'Mae gennyt ti'r hawl i gael dy amddiffyn rhag cael dy frifo neu dy drin

yn wael'. Bydd hyn yn sicrhau bod plant yn cael ei thrin yn deg a'i amddiffyn o anffafiaeth. Fodd bynnag, efallai bydd rhai ymarferydd/athrawon dim yn deall yn ddyfnder y mathau gwahanol o fwlio. Mae'n anodd i athrawon/ymarferydd gwahaniaethu rhwng ymddygiad bwlio a chwarela bob dydd rhwng plant a phobl ifanc. (NCB, 2023). Mae athrawon yn allweddol wrth hyrwyddo amgylcheddau dysgu diogel, gan eu bod yn aml yn gyntaf i atal a mynd i'r afael ag ymddygiad treisgar gan gynnwys bwlio mewn ysgolion. Cefnoga fy mhwynt cynharach, mae astudiaeth ddiweddar yn dangos nad yw nifer sylweddol o athrawon yn gallu adnabod, atal a mynd i'r afael; a bwlio yn effeithiol. (UNESCO, 2023). Er mwyn cyrraedd y nod yma, mae'n bwysig i ymarferydd derbyn hyfforddiant am y mathau gwahanol i fwlio, i ddeall yr arwyddion a sut i ddelio gydag yn effeithiol. Ei nod yw gwneud y cyfnodau yn rheolaidd, serch hynny efallai nad oes digon o amser yn y dydd i ymarferydd gwneud yn gyson, felly o ganlyniad ni fydd y plentyn yn cael yr help angenrheidiol a fydd y nod yma dim yn cael ei chyrraedd.

Yr argymhell arall byddai'n trafod o'r adroddiad yw grymuso plant. Dywed the right way (2021) bod grymuso plant yn rhan angenrheidiol yn y cwricwlwm newydd, dylai plant dysgu am ei hawliau, a dysgu trwy eu hawliau. Gall grymuso plant mewn lleoliad addysg hefyd eu grymuso yn eu bywyd, gyda'u teulu, yn eu cymuned ac fel dinesydd. Mae angen i bob unigolyn yn y lleoliad deall hawliau plant ynglŷn ar blant. Fodd bynnag, nad yw pob plentyn yn deall ei hawliau, felly bydden anodd grymuso os nad yw'n deall. Cyn i blant deall y cysyniad haniaethol o fod a hawliau neu sôn am hawliau, mae angen profiad uniongyrchol arnynt, megis cael eu hawliau wedi bodloni, deddfu a blaenoriaethu o fewn eu rhyngweithio a phrofiadau pob dydd. (The city of Edinburgh Council, 2022). Felly mae lawr i'r lleoliad i sicrhau bod ymarfer yn cynnwys hawliau plant a bod nhw'n cael ei chyrraedd i blant deall yn ddyfnach beth yw eu hawliau. I hyn fod yn effeithiol mae'n bwysig bod ymarferydd ac oedolion yn gwybod hawliau'r plant i allu helpu plant dysgu trwy ei hawliau. Gall hyn fod lawr i ddiffyg hyfforddiant, ond yn ôl Y Comisiynydd Plant Cymru (2023) mae'n bosib cael hyfforddiant am ddim i ddysgu am yr hawliau a sut i rymuso. Yna wrth iddyn nhw dderbyn yr hyfforddiant yma a sicrhau bod ei hawliau yn cael ei chyrraedd bydd plant llawer fwy hapus i fod yn lleoliad am ei fod yn teimlo ei fod yn perthyn ac efo llais. Fodd bynnag, efallai bod ymarferydd efo safbwyntiau gwahanol i hawliau plant gan fod hawliau dynol hefyd. Cysyllta ag UNICEF (2023)

nid yw plant yn eiddo i'w rhieni nac ychwaith yn wrthrychau diymadferth o elusen. Maen nhw'n fodau dynol ac efo hawl i gael ei hawliau eu hunan. Serch hynny efallai bod rhai ymarferydd neu rheini yn gweld eu hunan fel awdurdod uchaf ac efo mwy o hawl dros y plentyn ac o ganlyniad efallai bydd rhai o'r hawliau yn cael ei anghofio. Gall hyn fod lawr i Hawliau dynol yn mynd yn erbyn hawliau plant, am fod mwy hawliau plant oherwydd maen nhw angen mwy o amddiffynnid. (UNICEF, 2023).

Nod arall yr adroddiad yw 'Make sure Children on your school council and other pupil voice groups can meaningfully influence decisions in your setting'. Yn flynyddoedd cynnar mae'n hynod o bwysig bod llais y plant yn cael ei chlywed am ei fod yn fuddiol iawn. Y cryfderau i hyn yw bod ymarferydd yn darganfod beth sy'n bwysig iddyn nhw a beth yw ei galluedd. Gall effeithio ar iechyd meddwl, emosiynol a lles plant a gynnig cyfleoedd iddyn nhw fynegi barn, i gael eu clywed a chlywed eraill. (National Childrens Bureau, 2021). Fodd bynnag er ei bod yn syniad gwych i gael pwyllgor i glywed llais y blant ni fydd llais pob plentyn yn cael ei chlywed. Fel arfer bydd plant o bob flwyddyn ar y pwyllgor ysgol a byddant nhw'n llais y plant yn ei flwyddyn. I raddau bydd hyn yn effeithiol oherwydd bydd llais mwyafrif y plant yn cael ei chlywed ond efallai bydd rhai plant dim yn teimlo'n gyfforddus dweud ei phroblemau i blant eraill ac eisiau dweud wrth athro yn lle. I sicrhau bydd pwyllgor yn llwyddiannus yn y Blynnyddoedd Cynnar efallai bydden effeithiol i blant ysgrifennu ei theimladau yn ddienw ac yna maen nhw'n cael sylw, bydd pob plentyn yn teimlo'n gyfforddus i fynegi eu teimladau. (Priscilla Alderson, dim dyddiad).

Rhan 3

Dawn amlwg bod nifer o agweddau cymdeithasegol yn effeithio ar fywyd plant pob dydd. Yr agwedd byddai'n canolbwyntio ar a gwneud gwerthusiad beirniadol o yw tlodi. Yn ôl UNICEF (2023) mae plant yn fwy tebygol o fyw mewn tlodi nag oedolion, a hefyd yn fwy agored i'w effeithiau. Ar draws y byd, mae tua 1 biliwn o blant yn dlawd aml ddimensiwn, sy'n golygu nad oes ganddynt angenrheidiau sylfaenol megis maeth neu ddŵr glan. Ar ben hynny, oherwydd pandemig COVID-19, mae 100 miliwn o blant ychwanegol wedi syrthio i dlodi. Yn aml, nid oes gan blant sy'n tyfu'n anymarferol y bwyd, glanweithdra, lloches, gofal iechyd ac addysg sydd eu

hangen arnynt i oroesi a ffynnu. Cysyllta â theori Hierarchaeth anghenion Maslow, dywed bod rhaid bodloni anghenion yn is yn yr hierarchaeth cyn y gall unigolion fod yn bresennol i anghenion uwch. Felly i blant llwyddo yn fywyd mae'n bwysig bod ei anghenion yn cael ei chyrraedd neu maent dan anfantais. Roedd 3.9 miliwn o blant yn byw mewn tlodi yn y DU yn 2020-21. Mae hynny'n 27% neu wyth mewn ystafell ddosbarth o 30. (UNICEF, 2023).

Mae plant a theuluoedd sy'n byw ac yn tyfu i fyny mewn tlodi ac aelwydydd incwm isel yn profi llawer o anfanteision. Wrth fod yn agored i rai neu'r holl ffactorau allweddol yma arian cyfyngedig ar gyfer adnoddau bod dydd gan gynnwys tai ansawdd da, straen byw mewn tlodi, ffyrdd afiach o fyw, addysg a chyfleoedd gwaeth. Os mae plant yn delio gyda'r ffactorau yma mae'n cael effaith negyddol ar eu datblygiad cymdeithasol, emosiynol, gwybyddol, ymddygiad a chanlyniadau addysg. (Public Health Scotland, 2023). Yn ôl Childens bureau (2019) maent yn wynebu ffactorau risg sy'n gysylltiedig â phroblemau iechyd gwael fel oedolion megis clefyd y galon, strôc, canser a hyd yn oed disgwyliad oes fyrrach. O ganlyniad, nid dangosydd yn unig yw tlodi gan ei fod yn cyflwyno canlyniadau niweidiol hirdymor i blant. (Chaudry a Wimer, 2016). Gall tlodi effeithio'n negyddol ar sut mae'r corff ar feddwl yn datblygu a gall caledi economaidd newid strwythur sylfaenol ymennydd y plentyn. (Children's bureau, 2019). Yn ôl comisiynydd plant Cymru (2023) yn ôl erthygl 24 a 27, yn nodi bod gan blant yr hawl i gael dŵr glan, bwyd maethlon, amgylchedd glan a gofal iechyd da a bod rhaid i lywodraethau helpu teuluoedd sy'n methu fforddio darparu'r pethau angenrheidiol. Fodd bynnag, mae nifer sylweddol o blant methu a diwallu'r anghenion hyn oherwydd maent yn byw mewn tlodi.

Derbyn addysg yw un o'r prif ffyrdd o sicrhau sefydlogrwydd ariannol. (Global citizen, 2020). Felly, dylai plant derbyn addysg effeithiol i allu datblygu i yw potensial llawn. Cefnoga hyn Comisiynydd Plant Cymru (2023) erthygl 28 'mae gennynt ti'r hawl i dderbyn addysg'. Ond mae iechyd gwael sy'n gysylltiedig â tlodi plant sy'n cyfyngu potensial a datblygiad plant sy'n arwain at lai o gyfleoedd yn fywyd. (Wickham, 2016). I ychwanegu mae tlodi plant yn gysylltiedig â gwahaniaethu strwythurol mewn sawl maes o ddatblygiad yr ymennydd, a gall hyn achosi gwahaniaethau mewn cyflawniadau academiaidd. (Wickham, 2016). Mae plant o gefndiroedd tlawd yn llawer llai tebygol o brofi amgylchedd cartref

cyfoethog. Erbyn oed 3, maen pwysig bod rhieni yn darllen i'r plentyn, mae'r amgylchedd dysgu gartref yn bwysig iawn ar gyfer datblygiad addysgol plant. (Alissa Goodman a Paul Gregg, 2010). Cefnoga ESTYN (2022) hyn mae amgylchedd dysgu cyfoethog yn ysgogi chwarae a dysgu plant. Fodd bynnag, yn anffodus nad yw pob plentyn yn derbyn hyn gall hyn fod oherwydd bod rhieni'n cael llawer o straen arnynt yn barod, felly mae'n anodd iddyn nhw ddarparu'r holl anghenion i helpu'r plentyn i ddatblygu'n llwyddiannus. Dywedir yn aml nad yw rhieni yn gallu darparu bwyd iach, dwr glan neu mae ganddynt lefel addysgol llai sy'n dylanwadu ar eu galluoedd fel rhiant. (NSPCC, 2015). Mae plant o gefndir tlodi hefyd yn colli mas ar gyfleoedd yn ysgol hefyd. Nid yw triapiau ysgol yn rhad ac nad yw rhai rhieni yn gallu eu fforddio. (Goretti Hogan, 2007). Er hynny mae'n amlwg nad yw'r llywodraeth yn ystyried y frwydr i rieni sydd mewn tlodi. Mae hyn yn mynd yn erbyn hawliau plant, erthygl 2. (Comisiynydd Plant Cymru, 2023). Cysyllta â Bronfenbrenner ar lefelau micro a macro, mae lawr i'r llywodraeth i ddewis faint o gyllid bydd ysgolion yn derbyn, o ganlyniad i hyn nad oes digon o gyllid gydag ysgolion i gynnig triapiau am ddim. Mae rhieni a phlant yn wynebu problemau eraill yn ysgol megis gwisg ysgol. Nodir Goretti Hogan (2017) er i'r Llywodraeth geisio cadw cost gwisg ysgol yn isel mae dal yn ddrud. O ganlyniad i hyn mae'n bosib bydd rhaid i rieni defnyddio dillad ail-law i'r plentyn. Gall hyn arwain at broblemau bellach megis bwlio. Cefnoga Children's Society (2023) hyn wrth i arian bod prin mae rhaid delio efo pethau fel mae. Mae plant yn gwneud y gorau o'r hyn sydd ganddynt hwy ond mae bwllis yn aml yn targedu'r rhai sy'n edrych ychydig yn wahanol. Dyna pam mae pwysig bod plant yn cael ei dysgu am y problemau yma i ddysgu nhw ni ddylid barnu rhywun a'r ffordd maent yn edrych. Dywedodd dros chwarter y plant o'r teuluoedd tlotaf eu bod wedi cael ei bwlio gan nad oedd eu rhieni'n gallu fforddio cost yr ysgol. O achos hyn gellir cael effaith bellach ar ei les, am ei fod yn teimlo'n wahanol i blant arall. (Children's Society, 2023).

Hanson et al. (2013) yn gysylltiedig yn uniongyrchol a materion ymddygiad aflonyddgar mewn babanod a phlentyndod cynnar. At hyn, nodir Three Rivers District Council (dim dyddiad) gall tlodi arwain at brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACE's) sy'n gallu cael effaith niweidiol ar blant trwy gydol eu bywydau. Dawn amlwg bod cysylltiad rhwng tlodi a cham-drin plant ac esgeulustod. (Morris

et al., 2018). Mae profiadau cynnar plant yn siapio nhw am eu dyfodol. Cefnoga NSPCC (2015) ymhlith y canlyniadau negyddol sy'n effeithio ar blant, cam-drin ac esgeulustod, yn gysylltiedig yn gyffredin a theuluoedd sy'n byw mewn tlodi. Fodd bynnag, mae Morris et al., (2018) yn hysbysu dylai fod dull mwy cyfannol o gefnogi plant a theuluoedd mewn tlodi gan fod yr effaith niweidiol mae plant yn brofiadu yn gallu effeithio nhw ymhellach yn fywyd.

Mae yna ymyriadau sy'n gallu cefnogi plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi. Mae rhieni a gofalwyr plant sy'n byw yng Nghymru mewn tlodi yn cael y cyfle i hawlio prydau ysgol am ddim, a'r grant datblygu disgyblion sy'n helpu nhw i dalu am ei wisg ysgol neu dechnoleg. (Llywodraeth Cymru, dim dyddiad; Bevan Foundation, 2018). I ychwanegu dywed department of education (2018) bod teuluoedd sydd ar gredyd cynhwysol neu fudd-dal arall ar sail incwm yn gymwys a brydau ysgol am ddim. Ar ben hynny, mae'r grant datblygu disgyblion ond ar gael i deuluoedd sy'n derbyn un o'r buddion uchaf, sy'n golygu nad yw miloedd o blant sy'n byw mewn tlodi yn elwa o'r cynlluniau ychwanegol hyn. (Llywodraeth Cymru, dim dyddiad). Serch hynny canfyddir fod 36% o blant oed ysgol ledled y DU yn byw mewn tlodi ond dal yn anghymwys ar gyfer prydau am ddim. (Liz Emerson, 2021). Cefnoga Child Poverty Action (2023), gall 1 miliwn o blant bod yn anghymwys i gael prydau ysgol am ddim ac o ganlyniad dioddef o newyn drwy'r dydd heb unrhyw ffordd o gael bwyd. Ers COVID-19 ystadegau'r llywodraeth ddatgelu cynnydd mawr mewn cymhwysedd prydau ysgol am ddim. (Liz Emerson, 2021). Gall hyn bod oherwydd roedd y rheini mas o swydd o ganlyniad yn creu llai o arian, felly wrth i blentyn nhw mynd nôl i ysgol nad oedd yn gallu fforddio i brynu prydau bwyd ysgol. Yn ôl y Llywodraeth a BBC (2022) erbyn 2024 y disgwyl yw bydd tua 272,000 o ddisgyblion ysgol gynradd Cymru yn cael cinio am ddim. Mae'n rhan o gytundeb rhwng Plaid Cymru a Llywodraeth Lafur Cymru. Y cryfder i hyn, yw bod ên sicrhau bod pob plentyn yn cael bwyd i allu gweithio i'w potensial llawn a gallu ffocysu yn ysgol. Cefnoga IRIS (2020) hyn mae'n eu helpu gyda'u dysgu a'u datblygiad ac yn helpu nhw canolbwyntio mwy. Mae pryd o fwyd ysgol am ddim sy'n iach a maethlon yn gallu gwneud gwahaniaeth enfawr i les, addysg ac iechyd disgyblion babanod. Gan greu prydau am ddim yn gynhwysol, mae'n offeryn allweddol ar gyfer cyflawni hawl plant i fwyd. (Imogen Richmond-Bishop, 2020). I ychwanegu os mae pob plentyn yn derbyn hwn, na fydd plant yn cael ei stereoteip neu deimlo'n wahanol o achos.

Mae Llywodraeth Cymru (2019) yn darparu rhaglen am ddim sef Dechrau'n Deg sydd wedi targedu at blant ifanc rhwng 2 a 3 oed sy'n byw yn ardaloedd mwyaf difreintig Cymru. Mae dechrau'n deg yn gweithio'n agos gydag ymwelwyr iechyd i sicrhau bod plant a theuluoedd yn derbyn cefnogaeth ac yn darparu ymyriadau lle bo angen. Mae ffocws ar gynorthwyo mewn datblygiad cymdeithasol, emosiynol a gwybyddol plant drwy sesiynau chwarae gyda'u rhieni a gofalwyr a rhai heb. Maent wedi hyfforddi'n arbennig ym maes datblygu plant ac yn gallu cefnogi teuluoedd i gyflawni cerrig milltir megis hyfforddiant toiledau, diddyfnu a sgiliau cyfathrebu da. (Flying Start Merthyr Tydfil, dim dyddiad). I hynny, dim ond mewn ardaloedd penodol y mae dechrau deg ar gael sy'n arwain at lawer o deuluoedd sy'n byw mewn tlodi a eithriwyd o'r gefnogaeth. (BBC News, 2018). At hynny, mae Dechrau Deg wedi targedu at blant a theuluoedd sy'n byw mewn ardaloedd penodol yn Sir Gar sydd wedi diffinio yn ôl cod post. Fodd bynnag, nad yw hyn yn deg ar bob plentyn oherwydd nad yw'n targedu pob plentyn sy'n byw yn ardaloedd difreintiedig. Cefnoga South Wales Argus (2018) gan ddweud bod y rhaglen angen cyrraedd mwy o blant mewn angen. Dywedodd llefarydd ar ran Llywodraeth Cymru mai rhoi dechrau gorau mewn bywyd i blant yn flaenoriaeth, ond oherwydd yr ardaloedd daearyddol cyfyngedig mae nifer o blant a'u teuluoedd yn colli allan (Newyddion y BBC, 2018).

Y rhestr Cyfeirnod

Alderson, P. (dim dyddiad) *school students views on school councils and daily life at school*. Ar gael o: https://onlinelibrary.wiley.com/doi/epdf/10.1111/j.1099-0860.2000.tb00160.x?saml_referrer (Darllenwyd ar: 2il o Fawrth).

Anna Freud National Centre for Children and Families (2022) *Working with families from diverse communities in the Early Years*. Ar gael o: [Supporting families from diverse communities | Early Years in Mind | Anna Freud Centre](#) (Darllenwyd ar: 2il o Fawrth).

BBC (2022) *Universal free school meals begin in Wales for youngest children*. Ar gael o: <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-62811530> (Darllenwyd ar: 2il o Fawrth).

Bevan Foundation (2018) *Free school meals in Wales – A policy in need of reform?* Ar gael o: [Free School Meals in Wales - A Policy in Need of Reform? - Bevan Foundation](#) (Darllenwyd ar: 2il o Fawrth).

Blatchford, S I, a Hallet, E (2014) *Empowering leadership: The process of change*. Ar gael o: <https://sk.sagepub.com/books/effective-and-caring-leadership-in-the-early-years/n9.xml> (Darllenwyd ar: 2il o Fawrth).

Bush, T. (2011) *Theories of Educational Leadership and Management*. London: SAGE Publications.

Clark M R. (2012) *'I've never thought of myself as a leader but...' the Early Years Professional and catalytic leadership*. Ar gael o: <https://www.tandfonline.com/doi/abs/10.1080/1350293X.2012.704762?needAccess=true&journalCode=recr20> (Darllenwyd ar: 2il o Fawrth).

Comisynydd Plant Cymru (2023) *Early years*. Ar gael o: <https://www.childcomwales.org.uk/early-years/> (Darllenwyd ar: 3ydd o Fawrth).

Comisynydd Plant Cymru (2023) *Legal Powers*. Ar gael o: <https://www.childcomwales.org.uk/about-us/legal-powers/> (Darllenwyd ar: 28ain o Chwefror).

Contact (2023) *Keeping a record of bullying incidents*. Ar gael o: <https://contact.org.uk/help-for-families/information-advice-services/education->

[learning/bullying/keeping-a-record-of-bullying-incidents/](#) (Darllenwyd ar: 2il o Fawrth).

Cooperrider, D. (2022) *Leadership as a Catalyst for Change*. Ar gael o: [Leadership as a Catalyst for Change - Vunela](#) (Darllenwyd ar: 2il o Fawrth).

Chaudry, A. and Wimer, C. (2015) '*Poverty is Not Just an Indicator: The Relationship Between Income, Poverty and Child Well-being*', *Academic Pediatrics*, 16(3), pp. 23-29. Ar gael o: [Poverty is Not Just an Indicator: The Relationship Between Income, Poverty, and Child Well-Being - ScienceDirect](#) (Darllenwyd ar: 3ydd o Fawrth).

Child Poverty Action Group (2023) *Child Poverty Facts And Figures*. Ar gael o: https://cpag.org.uk/child-poverty/child-poverty-facts-and-figures?utm_medium=cpc&utm_source=google&utm_campaign=informjuly21&utm_content=search&utm_term=cause&gclid=EAlaIQobChMI_qv1seK_QIVTLDtCh3SKguKEAAYASAAEgJ7mPD_BwE (Darllenwyd ar: 1af o Mawrth).

Children bureau (2023) *Children in poverty- Poverty and its effects on children*. Ar gael o: <https://www.all4kids.org/news/blog/poverty-and-its-effects-on-children/> (Darllenwyd ar: 1af o Fawrth).

Dougless A, L. (2019) *Leadership for quality early childhood education and care*. Ar gael o: <https://www.oecd.org/officialdocuments/publicdisplaydocumentpdf/?cote=EDU/WKP%282019%2919&docLanguage=En> (Darllenwyd ar: 1af o Fawrth).

Early Years Matter (2023) *The Unique child*. Ar gael o: <https://www.earlyyearsmatters.co.uk/eyfs/a-unique-child/#:~:text=Every%20child%20is%20a%20unique,in%20their%20own%20individual%20ways>. (Darllenwyd ar: 2il o Fawrth).

Edinburgh Council (2022) *Learning through rights in the early years*. Ar gael o: <https://education.gov.scot/media/453guwaw/learning-through-rights-in-elc.pdf> (Darllenwyd ar: 1af o Fawrth).

Emerson, L (2021) *One million children could be missing out on free school meals*. Ar gael o: <https://www.if.org.uk/2021/09/06/one-million-children-could-be-missing-out-on-free-school-meals/> (Darllenwyd ar: 3ydd o Fawrth).

Emerson, S M. (2012) *7 reasons why change management strategies fail and how to avoid them*. Ar gael o: <https://professional.dce.harvard.edu/blog/7-reasons-why-change-management-strategies-fail-and-how-to-avoid-them/#content> (Darllenwyd ar: 28ain o Chwefror).

Equaliteach (2023) Staff training. Ar gael o: <https://equaliteach.co.uk/education/staff-and-teacher-training/> (Darllenwyd ar: 1af o Fawrth).

ESTYN (2022) *Building a rich learning environment*. Ar gael o: <https://www.estyn.gov.wales/effective-practice/building-rich-learning-environment> (Darllenwyd ar: 2il o Fawrth).

Flying start Merthyr Tydfil (dim dyddiad) *What is flying start*. Ar gael o: <https://www.merthyr.gov.uk/resident/learning-in-merthyr-tydfil/early-years-flying-start/flying-start/what-is-flying-start/> (Darllenwyd ar: 2il o Fawrth).

Garvey, D. (2017) *Performance Management in Early Years Settings: A Practical Guide for Leaders and Managers*. London: Jessica Kingsley Publishers.

Global Citizen (2020) *Understanding how poverty is the main barrier to education*. Ar gael o: https://www.globalcitizen.org/en/content/poverty-education-satistics-facts/?utm_source=paidsearch&utm_medium=ukgrant&utm_campaign=genericbrandname&gclid=EAlalQobChMIxaXAt_m_QIVDbTtCh3PuwXXEAAYAiAAEgKpkfD_BwE (Darllenwyd ar: 2il o Fawrth).

Goodman, A. a Gregg, P. (2010) *Poorer children's educational attainment: how important are attitudes and behaviour?* Ar gael o: <https://www.jrf.org.uk/sites/default/files/jrf/migrated/files/poorer-children-education-full.pdf> (Darllenwyd ar: 3ydd o Fawrth).

Government (2020) *HMCI commentary on school funding*. Ar gael o: <https://www.gov.uk/government/speeches/commentary-on-school-funding> (Darllenwyd ar: 1af o Fawrth).

Hadfield, M., Jopling, M. and Needham, M. (2015) *Practice Leadership in the Early Years: Becoming, Being and Developing as a Leader*. Berkshire: Open University Press.

Hanson, J.L. et al. (2013) 'Family Poverty Affects the Rate of Human Infant Brain Growth', *Plos One Collection: Social Psychiatry*, 10(12). Ar gael o: [Family Poverty Affects the Rate of Human Infant Brain Growth \(plos.org\)](https://doi.org/10.1371/journal.pone.0181111) (Darllenwyd ar: 2il o Fawrth).

Lalonde, J. (2017) *How to become a catalyst leader*. Ar gael o: <https://www.jmlalonde.com/become-catalyst-leader/> (Darllenwyd ar: 26ain o Chwefror).

Levy, J. (2020) *The importance of free school meals demonstrated*. Ar gael o: <https://www.iris.co.uk/blog/education/the-importance-of-free-school-meals-demonstrated/#:~:text=It%20does%20help%20them%20with,%2Dbeing%2C%20education%20and%20health> (Darllenwyd ar: 26ain o Chwefror).

Llywodraeth Cymru (2011) *Evaluation of Flying Start*. Ar gael o: <https://www.gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-04/evaluation-of-flying-start-findings-from-the-baseline-survey-of-families-summary.pdf> (Darllenwyd ar: 2il o Fawrth).

Llywodraeth Cymru (2017) *Flying Start Health*. Ar gael o: https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-07/flying-start-health-programme-guidance_0.pdf (Darllenwyd ar: 2il o Fawrth).

McDowall Clark, R. and Murray, J. (2012) *Reconceptualising Leadership in the Early Years*. Berkshire: Open University Press.

Mcleod, S. (2023) *Maslow's hierarchy of needs theory*. Ar gael o: <https://simplypsychology.org/maslow.html> (Darllenwyd ar: 1af o Fawrth).

Morris, K. et al. (2018) 'Social work, poverty and child welfare interventions', *Child and Family Social Work*, 23(3), pp. 364-372. Ar gael o: [Social work, poverty, and child welfare interventions - Morris - 2018 - Child & Family Social Work - Wiley Online Library](https://onlinelibrary.wiley.com/doi/10.1111/cfs.12444) (Darllenwyd ar: 28ain o Chwefror).

National children's bureau (2021) *Listening to the voices of young children*. Ar gael o: <https://www.staffsscb.org.uk/wp-content/uploads/2021/10/Listening-To-The-Voices-Of-Young-Children-RS-1-19.pdf> (Darllenwyd ar: 2il o Fawrth).

Nicholson, J. et al. (2018) 'A review of the literature on leadership in early childhood: examining epistemological foundations and considerations of social justice', *Early Child Development and Care*, 190(2), pp. 91-122. Ar gael o: [A review of the literature on leadership in early childhood: examining epistemological foundations and considerations of social justice: Early Child Development and Care: Vol 190, No 2 \(tandfonline.com\)](https://www.tandfonline.com/doi/full/10.1080/09013681.2018.1488888) (Darllenwyd ar: 28ain o Chwefror).

NSPCC (2023) *Mandatory safeguarding and child protection training*. Ar gael o: <https://learning.nspcc.org.uk/training/mandatory-safeguarding-child-protection-training> (Darllenwyd ar: 1af o Fawrth).

Powers Resouce Center (2017) *Are you a catalyst Leader?* Ar gael o: <https://www.powersresourcecenter.com/are-you-a-catalyst-leader/> (Darllenwyd ar: 2il o Fawrth).

Robbins, T. (no date) *What is leadership?* Ar gael o: [What is Leadership? The ultimate guide | Tony Robbins](https://www.tonyrobbins.com/what-is-leadership/) (Darllenwyd ar: 26ain o Chwefror).

Robinson, K. (2017) *The Role of Leadership in Education Needs to Change, It's Time to Stop Following the Leader*. Ar gael o: [The Role Of Leadership In Education Needs To Change, It's Time To Stop Following The Leader... \(hundred.org\)](https://www.hundred.org/en/articles/100-the-role-of-leadership-in-education-needs-to-change-its-time-to-stop-following-the-leader) (Darllenwyd ar: 26ain o Chwefror).

Science minded (2021) *Children are little scientists*. Ar gael o: <https://www.scienceminded.org/post/children-are-little-scientists> (Darllenwyd ar: 1af o Fawrth).

Social Capital Research (2022) *Guide to Social Capital: The Concept, Theory and it's Research*. Ar gael o: [Guide to Social Capital: The Concept, Theory, and its Research - Social Capital Research](https://www.socialcapitalresearch.com/guide-to-social-capital-the-concept-theory-and-its-research) (Darllenwyd ar: 24ain o Chwefror).

South Wales Argus (2018) *More flexibility needed Flying start scheme in helping children in deprived areas, Welsh assembly committee finds*. Ar gael o: <https://www.southwalesargus.co.uk/news/16042372.more-flexibility-needed->

[flying-start-scheme-helping-children-deprived-areas-welsh-assembly-committee-finds/](#) (Darllenwyd ar: 2il o Fawrth).

Toomer, J. et al. (2018) *The Catalyst Effect: 12 Skills and Behaviours to Boost your Impact and Elevate Team Performance*. Bingley: Emerald Publishing.

The Children's Society (2023) *What are the effects of child poverty?* Ar gael o: <https://www.childrenssociety.org.uk/what-we-do/our-work/ending-child-poverty/effects-of-living-in-poverty> (Darllenwyd ar: 2il o Fawrth).

Three Rivers District Council (no date) *What are Adverse Childhood Experiences (ACES's)?* Ar gael o: [What are Adverse Childhood Experiences \(ACEs\)? \(threerivers.gov.uk\)](https://www.threerivers.gov.uk/what-are-adverse-childhood-experiences-aces) (Darllenwyd ar: 26ain o Chwefror).

UNESCO (2023) *Teachers need training and support to prevent and address school bullying*. Ar gael o: <https://www.unesco.org/en/articles/teachers-need-training-and-support-prevent-and-address-school-bullying> (Darllenwyd ar: 2il o Fawrth).

UNICEF (2023) *Child poverty*. Ar gael o: <https://www.unicef.org/social-policy/child-poverty> (Darllenwyd ar: 1af o Fawrth).

UNICEF (2023) *Child rights and why they matter*. Ar gael o: <https://www.unicef.org/child-rights-convention/child-rights-why-they-matter> (Darllenwyd ar: 2il o Fawrth).

Welsh Government (2019) *Flying Start Health Programme Guidance*. Ar gael o: [Flying Start Health Programme Guidance \(gov.wales\)](https://gov.wales/flying-start-health-programme-guidance) (Darllenwyd ar: 23ain o Chwefror).

Wickham, S. (2016) *Poverty and child health in the UK: using evidence for action*. Ar gael o: <https://adc.bmj.com/content/archdischild/101/8/759.full.pdf> (Darllenwyd ar: 1af o Fawrth).

Young, E M (2002) *From early child development to human development*. Ar gael o: <https://citeseerx.ist.psu.edu/document?repid=rep1&type=pdf&doi=851c01205e45b4c45aa14cb7c3a94bd9a6e79996> (Darllenwyd ar: 28ain o Chwefror).